

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallaf ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rwyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau engreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

Sylwadau Cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r rheoliadau drafft yn ymddangos yn glir ac yn egluro rhai o'r cwestiynau a godwyd gennym yn ein hymateb i ymgynghoriad Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym mis Rhagfyr. Nodwn fod Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u hychwanegu at Atodlen 3 Deddf OGCC 2019, felly mae ein pryderon am awdurdodaeth dros gwynion camweinyddu a methiant gwasanaeth wedi'u datrys.

Fframwaith Moesegol a Chod Ymddygiad Enghreifftiol

Nodwn fod Rheoliad 7 yn caniatáu Swyddog Monitro o awdurdod perthnasol gael ei ddynodi'n Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Yn hytrach na sefydlu pwyllgor safonau newydd ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, awgrymwn y gallai Pwyllgor Safonau perthnasol "awdurdod cartref" y Swyddog Monitro penodedig berfformio unrhyw swyddogaethau pwyllgor safonau o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran materion safonau moesegol yn gysylltiedig â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddai hyn yn gwneud defnydd da o'r arbenigedd sydd bellach wedi datblygu ledled pwyllgorau safonau presennol yng Nghymru, gan sicrhau bod safonau moesegol o safon uchel yn cael eu cymhwyso.

Deallwn y bydd trydedd gyfran o reoliadau cysylltiedig yn cynnwys diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac, o ganlyniad, ni fydd rhai aelodau cyfetholedig nad ydynt eisoes yn aelodau o awdurdod lleol nac awdurdod parc cenedlaethol arall yn ddarostyngedig i God Ymddygiad am gyfnod byr. Am y rhesymau a nodwyd gennym uchod ac yn ein hymateb blaenorol, i sicrhau bod pob aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig nad ydynt ar hyn o bryd yn rhwym i'r drefn safonau moesegol, ystyriwn y dylid cyflwyno'r diwygiad i'r diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn adran 49 Deddf 2000 i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru (a'u his-bwyllgorau) cyn gynted â phosibl.

Credwn ei bod yn bwysig, ar ôl i'r diwygiadau cael eu gwneud, bod pob aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig a'u his-bwyllgorau yn ddarostyngedig i'r drefn safonau moesegol. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch eglurder y Rheoliadau o ran rhai agweddau ar gymhwyso'r Cod Ymddygiad.

Mae Rheoliad 15(2) yn caniatáu i is-bwyllgorau gynnwys, neu gynnwys yn llawn, bobl **nad** ydynt yn aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Nid yw'n nodi y bydd y bobl hyn yn cael eu dynodi'n gyfranogwyr neu staff cyfetholedig a fyddai'n rhwym i god ymddygiad perthnasol.

Mae Adran 9 Rheoliadau Sefydlu 2021 yn nodi y gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyfethol pobl i weithredu ar is-bwyllgor neu gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, ond nid yw'n eglur y caiff yr unigolion y cyfeirir atynt yn Adran 15(2) y Rheoliadau Cyffredinol eu penodi o dan y ddarpariaeth hon a'u bod yn cael eu hystyried yn 'gyfranogwyr cyfetholedig'.

Gall hyn olygu y gallai unigolion fod yn cyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig na fyddant yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad. Er bod safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru yn dda ar y cyfan, rydym o'r farn y dylai

egwyddorion Nolan a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n aelod o is-bwyllgor.

Fel y cyfryw, awgrymwn y dylid gwneud darpariaeth i sicrhau y dylai fod yn ofynnol i unrhyw berson sy'n aelod neu sy'n cymryd rhan mewn is-bwyllgor gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a dod o fewn y fframwaith safonau moesegol.

Croesawir hefyd eglurder ar gymhwyso pwerau atal/gwahardd Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau yn dilyn atgyfeirio aelod am dorri'r Cod Ymddygiad gan y OGCC.

Cyfarfodydd

Croesawn y dull i gymhwyso gofynion arferol llywodraeth leol ar gynnal cyfarfodydd a thrafodion i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a nodwn fod hyn yn cynnwys y darpariaethau yn Rheoliad 17 sy'n caniatáu i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd pe bai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu iddynt yn groes i'r rhwymedigaeth hyder. Bydd gofyniad y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar aelodau i beidio â datgelu gwybodaeth y dylid yn rhesymol ei hystyried yn gyfrinachol (para 5) yn berthnasol i holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a'u his-bwyllgorau pan fydd y diwygiadau i'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn gosod rhwymedigaethau yn hyn o beth ar aelodau unigol. Croesawn hefyd y ffaith bod yr holl reoliadau sy'n llywodraethu cynnal cyfarfodydd a mynediad at wybodaeth yn berthnasol i unrhyw is-bwyllgorau Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Croesawn eglurder ar statws "unigolion eraill" yn Rheoliad 24 ynghylch pwy sydd â hawl i siarad mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig ac a fyddent yn cael eu gwahardd o gyfarfodydd sy'n ystyried busnes "eithriedig". Os yw hyn yn cynnwys unigolion heblaw aelodau staff nad ydynt yn "aelodau" o Gyd-bwyllgor Corfforedig, gallai fod potensial i drydydd parti nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Cod Enghreifftiol ddylanwadu'n annheg ar benderfyniadau o ran materion y gallai fod ganddynt fuddiant ynddynt os caniateir iddynt fynychu cyfarfodydd y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'u heithrio ohonynt.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol: Asesu Costau

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau Cyffredinol gan nodi:

"Ystyriwyd y costau sy'n gysylltiedig â chais i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig am yr agweddau ar y fframwaith rheoleiddio sydd yn Rheoliadau drafft y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 felly fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain."

Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw yn [ein hymateb ym mis Rhagfyr](#) nad oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Sefydlu 2021 yn asesu unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar gyfer OGCC, gyda'n rhagdybiaeth y byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Rheoliadau Cyffredinol.

Gan y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd yn delio â materion strategol o natur sensitif, a fydd yn cael effaith sylweddol, rydym yn pryderu am y cynnydd posibl yn nifer y cwynion o achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad a gawn, a gynhrychir gan y penderfyniadau ac ymddygiad aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyfranogwyr cyfetholedig. Llynedd, gwelsom gynnydd sylweddol (47%) mewn cwynion yn ymwneud â'r Cod, gan gynnwys cwynion yn ymwneud ag arweinwyr ac aelodau cabinet a chynnydd yn y rhai a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru. Dengys ein data eleni bod hon yn duedd barhaus. Rydym hefyd yn pryderu y gallai'r potensial ar gyfer cwrmpas y cwynion gynyddu hefyd, oherwydd gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig ymgymryd â dyletswyddau a swyddogaethau llywodraeth leol ychwanegol yn y dyfodol.

Gall y costau sy'n gysylltiedig â'r cwynion hyn fod yn sylweddol a byddem yn ailadrodd ein cais bod goblygiadau ariannol cael cyrff ychwanegol yn ein hawdurdodaeth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r drydedd gyfran o reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y Gwanwyn.

Sylwadau cloi

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Medi 2021
